# Polisi Diogelu Plant

# Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Adolygwyd: Gorffennaf 2024

Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethu: Medi 2024

**CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL O FEWN YR YSGOL**

**UWCH BERSON DYNODEDIG AR GYFER AMDDIFFYN PLANT (UBD)**
ENW**: Beca Newis**
RHIF CYSWLLT: 02920 838809 newisr@hwbcymru.net

**DIRPRWY UBD**
ENW**: Denis Pugh**
RHIF CYSWLLT: 02920 838897 pughD31@hwbcymru.net

**LLYWODRAETHWR ENWEBEDIG AR GYFER AMDDIFFYN PLANT**
ENW: **Karin Phillips**
RHIF CYSWLLT: Ysgol – clerc i'r llywodraethwyr

**CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR**
ENW: **Iona Edwards**
RHIF CYSWLLT: Ysgol – clerc i'r llywodraethwyr

**CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL YN YR AWDURDOD LLEOL**

**ATGYFEIRIO I'R GWASANAETHAU PLANT YN HYB DIOGELU AMLASIANTAETHOL (MASH) CAERDYDD**
Pan fo gan ysgolion bryderon **BRYS** ac **UNIONGYRCHOL** am ddiogelwch a lles plentyn neu berson ifanc yn ystod oriau swyddfa ffoniwch: **029 2053 6490 (opsiwn 3)**
Ar gyfer achosion sydd ar waith gan y Gwasanaethau Plant lle mae gweithiwr cymdeithasol dynodedig ffoniwch **029 20 536400**
Cynrychiolwyr Addysg yn MASH (gweithwyr proffesiynol yn unig) **029 20338438**
Er mwyn gwneud atgyfeiriadau **BRYS Y TU ALLAN I ORIAU SWYDDFA** ffoniwch **029 20788 570**

**YR HEDDLU (AMDDIFFYN PLANT): 101, neu mewn argyfwng 999**

Gall y **TÎM DIOGELU ADDYSG** roi cyngor a chymorth.
**E-BOST CYSWLLT: DiogeluAddysg@caerdydd.gov.uk**

**Lynda Gallagher, Swyddog Diogelu Dynodedig (SDD)**
**RHIF CYSWLLT: 07778574107**

**Samantha Dickens – Prif Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer y Tîm Pryderon Proffesiynol**
**Samantha.dickens2@caerdydd.gov.uk**

**Dylid anfon ymholiadau/atgyfeiriadau mewn perthynas â phryderon Diogelu am ymarferwyr neu unigolion sydd mewn swydd o ymddiriedaeth i cyfarfodyddstrategaethbroffesiynol@caerdydd.gov.uk – blwch post canolog**

**Cysylltiadau Prevent Cyngor Caerdydd**


**Stephanie Kendrick-Doyle – Cydlynydd Prevent**
**Stephanie.Kendrick-Doyle@caerdydd.gov.uk/**
**07779961266**

**Tom Noaks – Swyddog Addysg Prevent**
**Thomas.noaks3@caerdydd.gov.uk**
**07843 381892**

**Nicola Winstanley - Rheolwr Prosiect Prevent**
**Nicola.Winstanley@caerdydd.gov.uk**
**07977 061760**

**MYNEGAI**


| | | |
|---|---|---|
| **CYFLWYNIAD** | **Tudalen** | **6** |
| **NOD** | **Tudalen** | **7** |
| **ATAL** | **Tudalen** | **7** |
| **GWEITHDREFNAU** | **Tudalen** | **8** |
| **HYFFORDDIANT** | **Tudalen** | **10** |
| **ADNABOD CAM-DRIN PLANT** | **Tudalen** | **10** |
| **GWEITHREDU AC ATGYFEIRIO** | **Tudalen** | **12** |
| **DELIO Â DATGELIADAU** | **Tudalen** | **14** |
| **PRESENOLDEB MEWN CYNADLEDDAU AMDDIFFYN PLANT A GRWPIAU CRAIDD** | **Tudalen** | **17** |
| **CADW COFNODION** | **Tudalen** | **17** |
| **CYFRINACHEDD/GDPR** | **Tudalen** | **19** |
| **CYMORTH I DDISGYBLION** | **Tudalen** | **20** |
| **PLANT A PHOBL IFANC SY'N FWY AGORED I NIWED** | **Tudalen** | **20** |
| **ATAL POBL ANADDAS RHAG GWEITHIO GYDA PHLANT** | **Tudalen** | **20** |
| **HONIADAU YN ERBYN STAFF YN YR YSGOL** | **Tudalen** | **21** |
| **CHWYTHU'R CHWIBAN** | **Tudalen** | **24** |
| **POLISÏAU CYSYLLTIEDIG ERAILL** | **Tudalen** | **24** |




O.N. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr

**Diogelu Addysg Cyngor Caerdydd:**
**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**

**Canllaw Arfer Gorau - Polisi Amddiffyn Plant ar gyfer Ysgolion**

## Cyflwyniad

"Rydym i gyd yn rhannu cyfrifoldeb am ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, boed hynny'n rhiant neu'n aelod o'r teulu, yn ffrind neu'n gymydog, yn gyflogwr neu'n weithiwr cyflogedig neu wirfoddol. Gall pob aelod o'r gymuned helpu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc a dylai weithredu i wneud hynny os oes ganddo bryderon am les plentyn"
*Diogelu Plant: Cydweithio dan y Ddeddf Plant* (2004)

Mae diogelu ac amddiffyn yn gyfrifoldeb i bawb
*Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 ar gyfer Plant sy'n Wynebu Risg o Gamdriniaeth neu Esgeulustod* (2019)

- Mae'r Ysgol yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl o ran lles a diogelwch pobl ifanc, a hyrwyddir yr ethos hwn drwy'r ysgol gyfan.

- Mae'r Ysgol yn ymrwymo i sicrhau diogelwch ac amddiffyniad pob plentyn a bydd yn cymryd camau i ddiogelu ei les.

- Bydd yr Ysgol yn gweithio gyda phartneriaid amlddisgyblaethol o fewn y fframwaith statudol a sefydlwyd gan:

    - Gweithdrefnau Diogelu Cymru
    - Diogelu Plant: Cydweithio dan Ddeddf Plant 2004, Adran 28
    - Deddf Addysg 2002, Adran 175 – Mae dyletswydd statudol ar ysgolion i sicrhau bod trefniadau ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant
    - Adran 5 GDC - Cyhuddiadau/Pryderon Diogelu am ymarferwyr a'r rhai sydd mewn safle o ymddiriedaeth.
    - Canllaw Llywodraeth Cymru 0900/2014 Ymdrin â Honiadau yn Erbyn Athrawon a Staff - yn cael ei adolygu.
    - Canllaw Newydd Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 275/2021
    - Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
    - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – dyletswydd i adrodd
    - Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
    - Canllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar y Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo ar gyfer Staff Ysgol (diwygiwyd yn 2020 i ddisodli fersiwn 2013)

Mae'r polisi amddiffyn plant yn berthnasol i'r holl staff, gan gynnwys staff cyflenwi a gwirfoddolwyr a staff a llywodraethwyr addysg gymunedol, Cynorthwywyr Addysgu,

goruchwylwyr canol dydd, staff cyflenwi, staff gweinyddol a staff cymorth: gall yr holl staff yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt datgelu cyntaf plentyn. Gall rhieni pryderus hefyd gysylltu â'r ysgol neu'r llywodraethwyr.
Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol gan ystyried adborth gan Gyrff Llywodraethu ac Ysgolion ac unrhyw ddogfennau neu ganllawiau polisi newydd.

## Nod

Nod yr ysgol yw darparu amgylchedd lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, ac yn teimlo'n hyderus: Bydd plant yn gwybod sut i fynd at oedolion os ydynt mewn trafferthion gan wybod y gwrandewir arnynt.

Mae pedair prif elfen i'n polisi wrth weithredu'r nod uchod:

1. **Atal** drwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol a gynigir i ddisgyblion a chreu a chynnal amgylchedd diogel trwy'r ysgol, lle mae plant yn gwybod at bwy y dylent fynd gydag unrhyw bryderon am eu lles.
2. **Gweithdrefnau** ar gyfer nodi pryderon am les plentyn arhoi gwybod amdanynt.
3. **Cymorth i Ddisgyblion** sydd wedi / a allai fod wedi cael eu cam-drin
4. **Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant** drwy brosesau profi a recriwtio cadarn.

## Atal

Mae'r ysgol yn cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a chyfathrebu da gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i amddiffyn plant.

Bydd yr ysgol felly yn:

- Sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad a lle y gwrandewir arnynt.
- Sicrhau bod plant yn gwybod bod yna oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atyn nhw os oes ganddynt bryderon am eu lles, os ydynt yn poeni neu os ydynt mewn trafferth
- Cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn y cwricwlwm, sy'n rhoi'r sgiliau y mae eu hangen ar blant i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth a gwybodaeth am bwy y gallant droi atynt am help;
- Cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o ran gofal plant, cydberthnasau iach a sgiliau rhianta;
- Sefydlu perthynas waith effeithiol gyda rhieni a chydweithwyr o asiantaethau partner.

## Gweithdrefnau

Adolygwyd y polisi hwn yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

## Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Amddiffyn Plant yn gyfrifoldeb i bawb; fodd bynnag, bydd gan staff yr ysgol gyfrifoldebau penodol a amlinellir isod.

- Rôl yr Uwch Berson Dynodedig dros Amddiffyn Plant (UBD) yw sicrhau bod yr holl weithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu dilyn yn yr ysgol, a gwneud atgyfeiriadau priodol ac amserol yn unol â gweithdrefnau Amddiffyn Plant a gweithdrefnau'r ysgol

- Os nad yw'r UBD ar gael am unrhyw reswm, enwir **Dirprwy UBD** a fydd yn gweithredu yn ei absenoldeb. Gwneir trefniadau amgen ar gyfer cyflenwi priodol hefyd os nad yw'r UBD na'r Dirprwy ar gael

- Rôl yr UBD yw sicrhau bod yr holl staff a gyflogir, gan gynnwys staff dros dro, staff asiantaeth a gwirfoddolwyr yn yr ysgol, yn ymwybodol o weithdrefnau mewnol yr ysgol, am gyngor, cymorth ac arweiniad

- Corff Llywodraethu a thîm arwain yr ysgol sy’n gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac arfer gorau

- Rôl y Llywodraethwr Enwebedig ar gyfer Amddiffyn Plant yw sicrhau bod gan yr ysgol bolisi Amddiffyn Plant effeithiol a chefnogi'r ysgol i ddatblygu a gweithredu'r polisi: mae gan y Corff Llywodraethu rôl allweddol fel cyfaill beirniadol o ran deall a herio'r trefniadau diogelu yn yr ysgol

- Dylai'r UBD/Pennaeth a'r Corff Llywodraethu adolygu a diweddaru'r polisi a'r gweithdrefnau bob blwyddyn

- Dylai'r UBD/Pennaeth sicrhau bod yr holl staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr yn cynnal hyfforddiant Amddiffyn Plant bob blwyddyn

- Sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r polisi amddiffyn plant ac yn deall dyletswydd yr ysgol i roi gwybod am bryderon Amddiffyn Plant i'r Gwasanaethau Plant

- Pan fydd plant yn gadael yr ysgol, sicrhewch fod unrhyw wybodaeth amddiffyn plant yn cael ei rhannu â'r ysgol sy'n derbyn y plentyn. Caiff ffeiliau amddiffyn plant eu copïo a chaiff y copïau eu hanfon yn ddiogel - ac ar wahân - i'r sefydliad newydd cyn gynted â phosibl. Cedwir y gwreiddiol yn ddiogel yn yr ysgol.

- Wrth aros am wybodaeth i gyrraedd, bydd yr UBD yn cael sgwrs ffôn gyda'r UBD yn y sefydliad blaenorol i drafod unrhyw bryderon uniongyrchol.

## Corff Llywodraethu'r Ysgol

Corff Llywodraethu'r Ysgol sy'n gyfrifol am y canlynol:

- Bod gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant effeithiol ar waith sy'n unol â chanllawiau awdurdodau lleol a gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol

- Bod polisi a gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol:
  - Ar gael i rieni a gofalwyr
  - Yn cael eu darparu mewn fformat sy'n briodol i ddealltwriaeth plant, ac yn arbennig ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol

- Sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod yr holl wiriadau priodol yn cael eu cynnal ar gyfer staff a gwirfoddolwyr newydd a fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

- Sicrhau bod y pennaeth a'r holl staff parhaol eraill a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant yn ymgymryd â hyfforddiant priodol i gael y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol, a diweddaru hyn gyda hyfforddiant gloywi

- Rhoi arweiniad clir i staff a gwirfoddolwyr dros dro sy'n cyflenwi yn ystod absenoldebau ac a fydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar drefniadau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau

- Sicrhau bod y corff llywodraethu yn mynd i'r afael ag unrhyw ddysgu a nodwyd o ran trefniadau amddiffyn plant yn unol â'i gyfrifoldeb adolygu a monitro, ac unrhyw faterion y tynnir ei sylw atynt.

- Y corff llywodraethu sy'n sicrhau bod yr uwch berson dynodedig (UBD), y llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant a chadeirydd y llywodraethwyr yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu perthnasol ac yn ei gynnal fel y cytunwyd gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Mae cynrychiolwyr o'r Tîm Diogelu Addysg (DiogeluAddysg@caerdydd.gov.uk) ar gael i gynnig cyngor, cymorth a hyfforddiant i UBD a Chorff Llywodraethu'r ysgol.

## Hyfforddiant

Rhaid i'r holl staff, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr addysgu, goruchwylwyr amser cinio, gofalwyr, gwirfoddolwyr, staff gweinyddol, staff cegin a Llywodraethwyr yr ysgol gwblhau hyfforddiant eDdysgu Diogelu Corfforaethol (sydd ar gael drwy'r Academi) a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Amddiffyn Plant Lefel 2, a ddarperir gan yr UBD yn flynyddol.

Mae hyfforddiant Amddiffyn Plant yn galluogi staff i;

- Ddeall yr Agenda Diogelu ar gyfer ysgolion a sut mae Amddiffyn Plant yn ffitio i mewn iddi
- Deall rolau a chyfrifoldebau allweddol gan gynnwys wrth bwy yn yr ysgol y dylid dweud am bryderon diogelu
- Adnabod arwyddion a symptomau cam-drin
- Gwybod sut i ymateb i ddatgeliad o gam-drin a sut i wneud atgyfeiriad
- Codi pryderon am ymarferwyr a phobl mewn safle o ymddiriedaeth.

Mae'r ysgol yn gweithredu proses sefydlu gadarn ar gyfer yr holl staff newydd, staff cyflenwi a dros dro a gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau amddiffyn plant gan gynnwys eu dyletswydd i adrodd. Rhaid rhoi llyfryn Sefydlu a chopi o'r polisi amddiffyn plant i'r unigolion hyn. Dylai'r unigolyn lofnodi a rhoi'r dyddiad ar y llyfryn/taflen sefydlu ar ôl ei ddarllen.

Rhaid i'r UBD enwebedig a'r Dirprwy UBD hefyd fynychu hyfforddiant UBD y Cyngor cyn ymgymryd â'r rôl hon a dilyn hyfforddiant gloywi UBD bob tair blynedd. Yn ogystal, dylai'r UBD ystyried hyfforddiant arbenigol *e.e. Addysgu Tîm, hyfforddiant WRAP* (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr). Rhaid i'r ysgol gadw cofnod o'r holl hyfforddiant staff.

Yn dilyn yr hyfforddiant hwn dylai'r aelod staff dynodedig fodloni unrhyw safonau hyfforddi pellach a amlinellwyd gan Gyngor Caerdydd.

Mae'r statws UBD yn cael ei amlinellu yng Nghanllaw Statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru.

## Adnabod Cam-drin Plant

Mae athrawon ac oedolion eraill mewn ysgolion mewn sefyllfa arbennig o dda i ganfod arwyddion o gam-drin ac esgeuluso plant. Mae'n bwysig, felly, fod unrhyw amheuaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod yn cael ei chymryd o ddifrif a bod system gyfathrebu glir yn yr ysgol a chydag asiantaethau partner perthnasol.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi pum categori cam-drin:

- Cam-drin Corfforol
- Cam-drin Emosiynol/Seicolegol
- Cam-drin Rhywiol
- Cam-drin Ariannol
- Esgeulustod

## Diffiniadau o Gam-Drin ac Esgeuluso Plant

Mae Deddf Plant 1989 a 2004 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio cam-drin fel a ganlyn:

> *'Caiff plentyn ei gam-drin pan fo rhywun yn ei niweidio, neu ddim yn atal niwed iddo. Gall plant gael eu cam-drin o fewn teulu neu mewn sefydliad neu gymuned gan bobl maen nhw'n eu hadnabod neu, yn fwy anarferol, gan ddieithryn. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed gael ei gam-drin neu'i esgeuluso a gall fod angen ei amddiffyn drwy gynllun amddiffyn plant rhyngasiantaethol'*

- **Cam-drin Corfforol**
  Taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, atal yn afresymol, neu gosbau amhriodol

- **Cam-drin Emosiynol/Seicolegol**
  Bygwth niweidio neu adael y plentyn, rheolaeth drwy orfodaeth, codi cywilydd, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, gweld eraill yn cael eu cam-drin

- **Cam-drin Rhywiol**
  Gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol; gweithgareddau di-gyswllt, fel cynnwys plant wrth edrych ar, neu gynhyrchu, deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol

- **Cam-drin Ariannol**
  Bydd y categori hwn yn llai cyffredin ymhlith plant ond gallai dangosyddion gynnwys:
  - peidio â bodloni eu hanghenion gofal a chymorth a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol; neu
  - gwynion bod eiddo personol yn mynd ar goll.

- **Esgeulustod**
  Peidio â bodloni anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol sy'n debygol o arwain at nam ar iechyd neu ddatblygiad.

Gall risg o niwed gwirioneddol neu bosibl arall i blentyn neu berson ifanc hefyd ddeillio o:

- Gamfanteisio troseddol megis llinellau cyffuriau
https://www.diogelu.cymru/chi/c6/c6.p1.html
- Camfanteisio'n rhywiol ar blant
https://www.diogelu.cymru/chi/c6/c6.p10.html
- Radicaleiddio
https://www.diogelu.cymru/chi/c6/c6.p6.html
- Anffurfio organau cenhedlu benywod
https://www.diogelu.cymru/chi/c6/c6.p2.html
- Caethwasiaeth fodern
https://www.safeguarding.wales/chi/c6/c6.p3.html
- Cam-drin ar Sail Anrhydedd
Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)

## Gweithredu ac Atgyfeirio

Gallech ddod i amau cam-drin neu ddysgu amdano o ganlyniad i:

- Ddatgeliad (ysgrifenedig neu lafar)
- Gweld cleisiau/llosgiadau ac ati nad yw'r eglurhad a roddir amdanynt yn debygol
- Disgybl/rhiant arall yn rhoi gwybodaeth i chi
- Gallech weld newidiadau mewn ymddygiad sy'n eich pryderu
- Gallech deimlo'n reddfol bod rhywbeth o'i le
- Problemau esgeuluso, fel y nodwyd yn yr adran uchod.

Os oes gan aelod o staff bryderon am les plentyn, dylai adrodd ei bryderon **yn syth** wrth yr UBD (neu'r Dirprwy UBD), a fydd yn ystyried y pryder yn briodol a pha gamau y dylid eu cymryd, os cymerir rhai.

- Gallai'r UBD geisio cyngor drwy ffonio Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) Caerdydd a'i gwneud yn glir bod yr alwad yn berthnasol i fater amddiffyn plant i sicrhau y caiff yr alwad ei blaenoriaethu. Dylai'r UBD ofyn am eglurder ar y cynllun diogelwch e.e a yw'n ddiogel i'r plentyn fynd adref. Yn dilyn cyngor gan MASH rhaid cyflwyno unrhyw atgyfeiriadau o fewn 24 awr.
- Sylwch, os yw UBD yn ymwybodol bod gan y plentyn Weithiwr Cymdeithasol dynodedig o fewn Tîm Ardal, dylai'r UBD roi gwybod ar unwaith i'r Gweithiwr Cymdeithasol / Gweithiwr Dyletswydd a dylid cyflwyno MARF i MASH, gan gopïo'r Gweithiwr Cymdeithasol.
- Gall yr UBD ofyn am gyngor gan y Porth mewn perthynas â materion lles plant/teuluoedd
- Ni all gweithwyr proffesiynol aros yn ddienw wrth atgyfeirio. Os caiff yr UBD wybod nad oes angen atgyfeirio ond yn ei farn broffesiynol ef/hi, mae angen gwneud atgyfeiriad, dylai wneud hynny.
- Wrth wneud atgyfeiriadau dylid ceisio caniatâd rhieni, oni bai bod gwneud hynny'n peri risg o niwed i'r plentyn. Mater i'r Gwasanaethau Plant yn MASH fydd penderfynu a yw'r mater yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cychwyn gweithdrefnau Amddiffyn Plant. Cofnodwch yr holl gamau a gymerwyd yn unol

â'ch cyfrifoldebau UBD a'r ddyletswydd sydd arnoch i adrodd, gan gynnwys unrhyw gyngor a roddir

- Os hysbysir aelod o staff fod plentyn wedi datgelu ei fod wedi cael ei gam-drin, **RHAID IDDO AR UNWAITH** gyfeirio'r mater at yr UBD neu'r Dirprwy UBD neu yn absenoldeb y ddau, MASH.

- Dylid rhoi gwybod yn syth i'r UBD am bob atgyfeiriad a wnaiff staff i MASH Caerdydd yn ystod ei absenoldeb.

- Os oes pryderon o natur Amddiffyn Plant a bod y plentyn **ar fin gadael safle'r ysgol** dylid hysbysu'r Pennaeth/UBD. Bydd y Pennaeth/UBD, mewn ymgynghoriad â MASH Caerdydd, yn penderfynu ar y cam nesaf.

- Dylai UBD/staff yr ysgol gael ymateb i'w hatgyfeiriad yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod gwaith. Os na fydd ateb wedi dod ar ôl 7 diwrnod, dylai'r UBD gysylltu â MASH Caerdydd i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

- Mae'n bwysig bod staff yn holi'r UBD pa gamau, os o gwbl, sydd wedi'u cymryd yn dilyn datgeliad neu bryder. Bydd staff yn cael gwybodaeth berthnasol am achosion unigol ynghylch amddiffyn plant ar sail "angen gwybod" yn unig. Mae unrhyw wybodaeth a rennir gydag aelod o staff yn gyfrinachol ac ni ddylid ei rhannu. Os oes gan yr aelod o staff bryderon parhaus, yna dylai hysbysu'r Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr os mai'r Pennaeth yw'r UBD. Gall yr aelod o staff hefyd adrodd ei bryderon wrth MASH Caerdydd neu'r Tîm Diogelu Addysg.

- Os yw'r unigolyn sy'n adrodd am y pryder yn anghytuno â phenderfyniad yr UBD nad oes angen atgyfeiriad, rhaid iddo wneud yr atgyfeiriad yn uniongyrchol i MASH Caerdydd a rhoi gwybod i'r UBD am hyn. Gellir ceisio cyngor a chymorth gan y Tîm Diogelu Addysg yn ôl y gofyn.

<u>Mae'r ysgol hon yn cydnabod mai dyletswydd i roi gwybod am bryderon amddiffyn plant sydd arni ac nid i ymchwilio</u>

**Os caiff plentyn yn yr ysgol anaf ac mae rheswm dros gredu ei fod wedi'i achosi gan gamdriniaeth neu esgeulustod, dylid cymryd y camau canlynol.**

- Os yw'r anaf yn ddifrifol ac yn galw am sylw meddygol brys, dylid mynd â'r plentyn i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mewn argyfwng dylid defnyddio'r gwasanaeth 999.

- Rhaid rhoi gwybod i MASH Caerdydd am y camau hyn **YN SYTH** gan y gallent ddymuno gwneud trefniadau i'r plentyn gael ei archwilio gan Bediatregydd wrth gyrraedd yr Ysbyty. Dylid ei gwneud yn glir mai achos o amheuaeth o gam-drin neu esgeuluso plant ydyw.

- Pan fydd achos rhesymol dros gredu mai'r rhiant neu'r gofalwr sy'n achosi'r anaf neu'r cam-drin, rhaid i'r holl staff gofio mai buddiannau'r plentyn sydd bwysicaf

ac y dylent, felly, drafod eu pryderon gyda thîm MASH Caerdydd neu'r Heddlu a fydd yn penderfynu pryd y caiff y rhieni/gofalwyr eu hysbysu.

## Delio â Datgeliadau

**Beth i'w wneud os yw plentyn yn dweud wrthych ei fod yn cael ei niweidio**

Gall plant sy'n profi camdriniaeth geisio 'dweud' yn yr ysgol, yn aml gan fod hwn yn rhywle lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel, a bod pobl yn gwrando arnyn nhw.

- Cymerwch amser i wrando ar y plentyn, bydd hyn yn dangos eich bod yn cymryd ei bryderon neu'i honiadau o ddifri.
- Peidiwch byth ag addo y byddwch yn cadw'r hyn a ddyweda wrthoch yn gyfrinachol – tawelwch feddwl y plentyn ac egluro'r ddyletswydd sydd arnoch i roi gwybod am bryderon o'r fath a beth fydd yn digwydd nesaf

Os yw plentyn yn dewis datgelu niwed i aelod o staff, rhaid cofio mai rôl yr ysgol yw cydnabod ac atgyfeirio'r gamdriniaeth, nid ymchwilio.  Ond nid yw hyn yn golygu na all yr aelod o staff sy'n clywed y pryder ddod o hyd i ffeithiau.

Mewn rhai achosion mae datgelu niwed neu anaf yn glir ac nid oes angen gofyn cwestiynau pellach er mwyn cydnabod y cam-drin a gwneud atgyfeiriad priodol.

Lle ceir teimlad fod plentyn yn gwneud datgeliad posibl neu fod ganddo anaf amheus, byddai modd cyfiawnhau staff yn gofyn digon o gwestiynau i'r plentyn er mwyn pennu a oes pryder amddiffyn plant. Dylai'r rhain fod yn agored ac anarweiniol. Peidiwch â dyfalu na chynnig esboniad arall.

Gallech ddefnyddio'r tri awgrym hwn i annog y plentyn i ymhelaethu ar ei bryder - 'Dweud', 'Esbonio' a 'Disgrifio'.

"Dyweda wrtha i am..."

"Esbonia hynny i fi"

"Disgrifia i fi…"

Os oes angen eglurhad pellach, dylai staff gadw at gwestiynau agored fel Beth? Pryd? Pwy? Sut? Ble?  Mae'n bwysig cofio mai dim ond er mwyn helpu i bennu a yw'r plentyn mewn perygl o niwed y dylid gofyn cwestiynau. Unwaith y bydd eglurhad wedi'i gael, ni ddylid gofyn cwestiynau pellach.

- Peidiwch â thorri ar draws pan fydd y plentyn yn adrodd y digwyddiadau a pheidiwch â gofyn i'r plentyn ailadrodd.
- Cofnodwch yn ysgrifenedig yr hyn a ddywedwyd cyn gynted â phosibl ar ôl y datgeliad. Byddwch mor gywir â phosibl, gan ddefnyddio geiriau ac iaith y plentyn ei hun e.e. Cymraeg, Tsieceg, Wrdw ac ati. Dylech gynnwys amser a dyddiad y datgeliad yn eich cofnod ac a oedd unrhyw un arall yn bresennol.

Gwnewch nodyn o ymddygiad y plentyn (byddwch yn benodol o ran sut mae'r plentyn yn ymddwyn/ymateb e.e. dywedwch 'crio' yn hytrach na dim ond 'gofidio'). Gwnewch nodyn o unrhyw gamau a gymerir yn dilyn y datgeliad (defnyddiwch y Cofnod Pryderon yn atodiad D)

- Hysbyswch yr UBD ar unwaith a pheidiwch â dweud wrth oedolion neu bobl ifanc eraill beth ddywedwyd wrthych.
- Bydd yr UBD yn storio'r Cofnod Pryder yn ddiogel ac yn gyfrinachol.
- Cyn gynted â phosibl (ac yn sicr yr un diwrnod) rhaid i'r UBD atgyfeirio'r mater at MASH Caerdydd. Dilynwch eu cyngor ar beth y dylech ei wneud nesaf. Dylai staff gadw mewn cof bob amser mai eu rôl nhw yw cynorthwyo'r Heddlu a'r Gwasanaethau Plant, NID cynnal eu hymchwiliadau eu hunain oni chânt eu cyfarwyddo i wneud hynny.
- Dylai atgyfeiriadau fod yn seiliedig ar gryfderau yn dilyn y dull Arwyddion Diogelwch fel yr amlinellir ar y ffurflen atgyfeirio.
- Os nad yw UBD yn gallu cysylltu â MASH drwy'r llinell dir, **rhaid** iddo e-bostio GPHDAA@caerdydd.gov.uk
- Peidiwch â phoeni am y posibilrwydd y gallech fod yn anghywir; mae dyletswydd arnoch i roi gwybod am eich pryderon ar ôl cael gwybod bod plentyn wedi'i gam-drin neu'i esgeuluso. Peidiwch byth â meddwl bod cam-drin yn amhosibl yn eich sefydliad neu grŵp, na chwaith fod cyhuddiad yn erbyn rhywun rydych chi'n ei adnabod yn dda ac yn ymddiried ynddo yn siŵr o fod yn anghywir.

**Mae'r canlynol yn bwysig:**

| **DYLECH** | **NI DDYLECH** |
|---|---|
| • **Gadw meddwl agored**<br>• **Rhoi sicrwydd i'r plentyn fod ganddo hawl i ddweud wrth rywun**<br>• **Gwrando'n ofalus**<br>• **Mynd ar gyflymder y plentyn**<br>• **Gofyn cwestiynau agored yn unig – os oes rhaid i chi eu gofyn, eglurwch y ffeithiau, peidiwch â holi'n ddwys**<br>• **Esbonio'r hyn sydd angen i chi ei wneud nesaf**<br>• **Cofnodi'n gywir ac yn gyflym gan ddefnyddio geiriau'r plentyn**<br>• **Trosglwyddo i'r UBD ar yr un diwrnod** | • **Addo cadw'r hyn y mae'n ei ddweud wrthych yn gyfrinach**<br>• **Torri ar ei draws**<br>• **Holi'n ddwys/ymchwilio**<br>• **Tybio e.e. mae'r plentyn hwn yn dweud celwydd**<br>• **Gwneud awgrymiadau am yr hyn sy'n cael ei ddweud**<br>• **Dyfalu neu gyhuddo unrhyw un**<br>• **Dangos dicter, sioc ac ati…**<br>• **Dweud wrth y plentyn am fynd i siarad â rhywun arall**<br>• **Anghofio cofnodi'n gywir a/neu drosglwyddo i'r UBD**<br>• **Trafod â'r camdriniwr honedig** |

## Presenoldeb Mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant a Grwpiau Craidd

Cyfrifoldeb yr UBD yw sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chynrychioli mewn unrhyw Gynhadledd Amddiffyn Plant o ran plant ar gofrestr eu hysgol neu a oedd yn hysbys iddynt o'r blaen.

Dylai'r UBD neu Ddirprwy gael ei friffio'n llawn ar unrhyw faterion neu bryderon sydd gan yr ysgol a rhaid iddo gyflwyno ei adroddiad yn ystod y cyfarfod a bod yn barod i wneud penderfyniadau ar gofrestru ar ddiwedd y gynhadledd. Adroddiadau i'w hanfon at gadeirydd/cydlynydd y gynhadledd dridiau cyn y gynhadledd. Dylai cynnwys yr adroddiad hefyd gael ei rannu gyda'r rhieni cyn y gynhadledd a lle bo hynny'n briodol, y plentyn/plant dan sylw.

Pan gaiff plentyn ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac felly mae'n destun Cynllun Amddiffyn Plant, cyfrifoldeb yr UBD yw sicrhau bod y plentyn yn cael ei fonitro ynglŷn â'i bresenoldeb a'i les yn yr ysgol a bod y Cynllun Amddiffyn Plant yn mynd rhagddo fel aelod o'r grŵp craidd.

Bydd yr ysgol bob amser yn rhan o'r Grŵp Craidd os yw'r plentyn o oedran ysgol. Dylai'r UBD sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chynrychioli yn y cyfarfodydd hyn a bod cofnod o bresenoldeb a materion sy'n cael eu trafod. Gall unrhyw gynrychiolydd o'r grŵp craidd ymgymryd â rôl y Cadeirydd os caiff ei enwebu i wneud hynny. Cyfrifoldeb y cadeirydd fydd sicrhau bod cofnodion yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r grŵp craidd.

Dylid trafod a chofnodi'r holl bryderon am y Cynllun Amddiffyn Plant a/neu les y plentyn yng nghyfarfod y grŵp craidd. Os oes pryderon bod y plentyn mewn perygl pellach o niwed sylweddol, rhaid i'r UBD hysbysu gweithiwr cymdeithasol y plentyn **yn syth** ac yna gofnodi ei fod wedi gwneud hynny a'r camau y cytunwyd arnynt.

Bydd yr ysgol yn hysbysu'r Gwasanaethau Plant os:

- yw disgybl sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn cael ei wahardd am gyfnod penodol neu yn barhaol; ac
- os yw disgybl sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn absennol o'r ysgol heb esboniad am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod ar ôl penwythnos)
- os oes pryder bod plentyn y mae ganddo Gynllun Amddiffyn Plant yn mynd ar goll.

Os yw ysgol yn poeni achos plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn cael ei adael i lithro, dylent siarad â'r gweithiwr cymdeithasol / rheolwr tîm yn y lle cyntaf. Os yw'r pryderon yn parhau, dylid uwchgyfeirio'r mater i gadeirydd y gynhadledd.

## Cadw Cofnodion

Dylai unrhyw aelod o staff sy'n cael datgeliad o gamdriniaeth neu esgeulustod gan blentyn/person ifanc, neu sy'n sylwi ar arwyddion neu symptomau o gam-drin neu esgeulustod posibl ar blentyn/person ifanc gofnodi'r datgeliadau neu'r arsylwadau hyn cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio system gofnodi'r ysgol.

Mae'n bwysig iawn hefyd cadw'r cofnod hwn yn ddiogel ac yn gyfrinachol.

Mae Dogfen 1 yn dempled Cofnod Pryder y gellir cyfeirio ato.

- Dylid cofnodi dyddiadau ac amseroedd digwyddiadau mor gywir â phosibl, ynghyd â nodyn yn dweud pryd y gwnaed y cofnod. Dylid llofnodi a dyddio hwn a'i ddwyn at sylw'r UBD er mwyn penderfynu ar gamau pellach.

- Dylid rhoi'r holl ddogfennau/cofnodion sy'n ymwneud â phryderon amddiffyn plant yn ffeil Amddiffyn Plant unigol y plentyn a'u storio'n ddiogel. Dylid ffeilio Dogfen 2 - Log Cofnodion ar ddechrau pob ffeil AP a'i defnyddio fel cronoleg i gofnodi digwyddiadau, cyfarfodydd neu gysylltiadau ac ati.

- Pan fydd plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael yr ysgol bydd yr UBD yn hysbysu ysgol newydd y plentyn ar unwaith.

- Os yw plentyn yn gadael yr ysgol i fynd i sefydliad arall, nad oes ganddo ffeil amddiffyn plant ond y bu pryderon diogelu amdano, yna dylid rhannu hyn â'r sefydliad newydd.

- Bydd yr UBD yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Plant/gweithiwr cymdeithasol am newidiadau sylweddol i'r cynllun amddiffyn plant neu amgylchiadau teuluol.

- Os oes gan blentyn ffeil Amddiffyn Plant ac mae'n symud ysgol (naill ai yng nghanol y flwyddyn neu'n pontio o'r Ysgol Feithrin i'r Ysgol Gynradd neu i'r Ysgol Uwchradd), bydd yr UBD yn hysbysu'r ysgol newydd am y pryderon amddiffyn plant. At hynny, bydd yr UBD yn sicrhau;

- RHAID cadw cofnodion Amddiffyn Plant am gyfnod amhenodol ar y cam hwn tra bo'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) yn parhau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan IICSA: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)
    - caiff copi o'r ffeil Amddiffyn Plant ei drosglwyddo'n ddiogel i'r ysgol newydd (ar wahân i'r ffeil addysg)
    - Rhoddir gwybod i'r Gwasanaethau Plant am newid ysgol i blentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae unrhyw honiadau neu bryderon am ymddygiad gweithiwr proffesiynol yn cael ei gofnodi ar wahân o gofnod y plentyn.

**<u>My Concern</u>**

Defnyddir meddalwedd diogelu My Concern gan yr ysgol a hefyd gan dîm Gwasanaeth Ieuenctid ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) yr ALl. Mae'n system syml a diogel ar gyfer cofnodi a rheoli'r holl bryderon diogelu, bugeiliol a lles.

Mae staff yn cofnodi ac yn rheoli unrhyw bryderon diogelu wrth iddynt ddigwydd. Wedi'i integreiddio â SIMS, mae My Concern yn tynnu'r wybodaeth berthnasol am fyfyrwyr o SIMS i greu proffil myfyriwr yn My Concern. Anfonir hysbysiadau awtomatig at yr arweinydd diogelu dynodedig pan ychwanegir unrhyw bryderon newydd gan ddefnyddwyr.

Mae My Concern yn caniatáu i ysgolion hwyluso cydweithio a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid a chydweithwyr dibynadwy megis Mentoriaid Ieuenctid yr ysgol neu weithiwr cymdeithasol plentyn, drwy eu hychwanegu fel aelodau tîm at bryder penodol neu broffil myfyriwr yn My Concern. Mae hyn yn hyrwyddo darlun cyflawn o les unigolyn ac yn galluogi aelodau perthnasol y tîm i weithredu pan fo angen heb orfod anfon diweddariadau ychwanegol drwy e-bost.

Gellir lanlwytho dogfennau, cofnodion, MARFau a ffurflenni atgyfeirio eraill a mathau eraill o gyfryngau, a'u cysylltu â chofnod y disgybl. Mae hyn yn lleihau'r angen am gofnodion papur ac yn canoli'r holl wybodaeth berthnasol ac ategol. Mae'n galluogi ysgolion i reoli a blaenoriaethu camau gweithredu a dangos effeithiolrwydd trefniadau diogelu i Estyn, Llywodraethwyr ac Uwch Arweinwyr a sbarduno gwell canlyniadau i fyfyrwyr.

Gellir creu adroddiadau ar unrhyw gyfuniad o gategorïau o bryder neu wybodaeth am fyfyrwyr dros gyfnod penodol neu ddeinamig. Mae adroddiadau nodweddiadol y gall ysgolion eu rhedeg yn cynnwys dadansoddiad o 'gyfanswm pryderon fesul mis', 'pryderon yn ôl categori', 'adroddiad llywodraethwyr tymhorol' ac ati.

Mae MyConcern, mewn partneriaeth â'r ALI, yn trefnu gweminarau ar gyfer UBDau drwy gydol y flwyddyn. Os hoffai staff weld unrhyw bynciau penodol yn cael eu cynnwys neu os oes ganddynt unrhyw ymholiadau, cyswllt yr ALI ar gyfer MyConcern yw Sian Cadwalladr: scadwalladr@caerdydd.gov.uk

**Mae gan ysgolion gyfrifoldeb cyfartal i sicrhau y caiff dogfennau/gwybodaeth eu rhannu yn ddiogel ac yn brydlon â'r holl bartneriaid diogelu perthnasol.**

## Cyfrinachedd a GDPR

Rydym yn cydnabod y pwysigrwydd i wybodaeth disgyblion aros yn gyfrinachol. Fodd bynnag, mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol ar gyfer ymyrraeth gynnar er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae hefyd yn hanfodol amddiffyn plant a phobl ifanc rhag dioddef niwed drwy gael eu cam-drin neu'u hesgeulustod a'u hatal rhag troseddu.

Wrth rannu gwybodaeth rhaid ei rhannu yn unol â'r GDPR a Deddf Diogelu Data 2018, y cyfeirir ati fel deddfwriaeth diogelu data'r DU. **Nid yw'r GDPR na Deddf Diogelu Data 2018 yn atal - na'n cyfyngu ar - rannu gwybodaeth at ddibenion cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel**

Wrth rannu gwybodaeth bydd angen i chi fod yn fodlon bod

- Dyletswydd statudol i adrodd
- Cydsyniad datganedig neu ymhlyg gan yr unigolion dan sylw; neu
- Fod datgelu'r wybodaeth er budd y cyhoedd ac yn drech na'r ystyriaethau eraill.

Un o'r saith rheol aur ar gyfer rhannu gwybodaeth yw ystyried a yw'n; angenrheidiol, yn gymesur, yn berthnasol, yn ddigonol, yn gywir, yn amserol ac yn ddiogel: sicrhewch fod y wybodaeth rydych yn ei rhannu'n angenrheidiol at y diben, yn cael ei rhannu â'r

unigolion hynny sydd ei hangen, yn gywir ac yn gyfredol, yn cael ei rhannu'n amserol ac yn cael ei rhannu'n ddiogel [38137 Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: Canllaw anstatudol ar rannu gwybodaeth i ddiogelu plant (llyw.cymru)]

Dylai pob penderfyniad i rannu neu beidio rhannu gwybodaeth gael ei gofnodi yn ysgrifenedig a'i storio ar gronfa ddata ddiogel yr ysgol.

Dylech ofyn am gyngor gan eich UBD os ydych yn ansicr, yn enwedig os yw eich amheuaeth yn ymwneud â phryder am niwed sylweddol posibl i blentyn neu niwed difrifol i eraill. Fodd bynnag, os ydych o'r farn bod plentyn mewn perygl, ni ddylech oedi cyn gofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Plant os na allwch siarad â'r UBD.

Dylid sicrhau bod rhieni'n ymwybodol bod dyletswydd statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a bod y cyfrifoldeb hwn yn cynnwys y ddyletswydd i roi gwybod i asiantaethau partner am bryderon o'r fath.

Mae ysgolion yn ystyried bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â materion amddiffyn plant unigol yn gyfrinachol a byddant yn ei thrin yn unol â hynny: I unigolion priodol yn unig y caiff gwybodaeth ei throsglwyddo. Bydd yr ysgol yn gwirio pwy yw'r person cyn rhannu gwybodaeth. Bydd ysgolion yn sicrhau bod ffeiliau amddiffyn plant yn cael eu storio mewn lleoliad diogel a than glo. Mae'r cofnodion hyn yn gyfrinachol a dylid eu cadw ar wahân i gofnodion dysgwyr eraill.

## Cymorth i Ddisgyblion

Cydnabyddwn y gallai plant sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu sy'n dyst i drais ei chael yn anodd meithrin synnwyr o hunan-werth a gallai hyn effeithio arnynt yn yr ysgol. Efallai mai'r ysgol yw'r unig le sefydlog a diogel i'r plant hyn a bydd yr ysgol yn eu cefnogi drwy:

- Gynnwys y cwricwlwm, i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant.
- Ethos yr ysgol sy'n hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel, ac sy'n rhoi ymdeimlad o werth i ddisgyblion
- Nod polisi ymddygiad yr ysgol yw cefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn yr ysgol. Bydd yr holl staff yn cytuno ar ymagwedd gyson nad yw'n rhoi bai am unrhyw gam-drin a ddigwyddodd.
- Cysylltu ag asiantaethau eraill o fewn fframwaith amlasiantaethol sy'n cefnogi'r disgybl megis Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad, y Gwasanaethau Cymorth i Ddisgyblion a mudiadau gwirfoddol.
- Ymrwymiad i ddatblygu perthynas gynhyrchiol a chefnogol â rhieni / gofalwyr lle bynnag y mae gwneud hynny er lles gorau'r disgybl.

## Plant a Phobl Ifanc sy'n Fwy Agored i Niwed

Mae'r ysgol yn cydnabod bod grwpiau o Blant a Phobl Ifanc sy'n fwy agored i gamdriniaeth. Cyfeiriwn at Bennod 4: Cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol "Cadw Dysgwyr yn Ddiogel" cyf 275/2021 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

## Atal Pobl Anaddas Rhag Gweithio Gyda Phlant

### Recriwtio Diogelach

Mae ysgolion yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio a rheoli sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc gan gynnwys trefniadau ar gyfer gwiriadau priodol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n cydymffurfio â'r polisïau recriwtio a gwirfoddolwyr.

Mae ysgolion yn dilyn gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer hysbysebu, cyfweld a recriwtio staff, gan gynnwys y gofyniad am wiriadau'r Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu (GDG), a rhoddir ystyriaeth i Bennod 5 a 6: Arferion recriwtio mwy diogel "Cadw Dysgwyr yn Ddiogel" cyf 275/2021 a chanllawiau Adnoddau Dynol cyfredol. Gweler polisi recriwtio a dethol y Cyngor

### Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae ysgolion yn gweithredu arferion recriwtio diogel gan sicrhau bod yr holl staff sy'n dod i gysylltiad â phlant neu sy'n cael gwybodaeth am blant yn cael gwiriadau priodol gan y GDG a gynhelir yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif:158/2015 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, Pennod 6 a Pholisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) Cyngor Caerdydd 1.CM.202

## Honiadau yn erbyn staff mewn lleoliad ysgol

Pan godir pryder neu pan wneir honiad ynghylch unrhyw oedolyn sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli yn yr ysgol (gan gynnwys staff parhaol, dros dro neu gyflenwi) o ran eu hymddygiad tuag at blentyn, rhaid ymgymryd â'r gweithdrefnau canlynol.

Mae'n bwysig cofio y gall pryderon Ymarferydd fod yn berthnasol i'w fywyd personol a/neu broffesiynol. Gall fod pryderon diogelu heblaw am hynny, gan arwain at ymddygiad niweidiol tuag at blentyn a allai beri pryder i ni ynghylch addasrwydd oedolyn i weithio gyda phlant.

- Dylid hysbysu Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth (yn absenoldeb y pennaeth) yr ysgol ar unwaith.

- Efallai y bydd y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth neu'r UBD am ofyn am gyngor gan y Tîm Diogelu Addysg a Swyddog Diogelu Dynodedig (SDD) y Gwasanaethau Plant (Lynda Gallagher) neu Samantha Dickens, Prif Weithiwr Cymdeithasol yn y Tîm Pryderon Ymarferwyr.

- Rhaid i bryderon diogelu neu honiadau sy'n ymwneud â phlentyn a nodwyd gael eu hadrodd i Hyb Diogelu Amlasiantaethol Caerdydd (MASH) neu'r Heddlu heb oedi.

- Dylid cyfeirio pryderon ymddygiad eraill (lle nad oes plentyn wedi'i adnabod) at y Tîm Pryderon Ymarferwyr drwy'r Ffurflen Adrodd Pryderon Ymarferwyr (gweler atodiad)

- Dylai'r Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth neu'r UBD (yr adroddwr) ofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Plant, y Tîm Pryderon Ymarferwyr a/neu'r Heddlu mewn

perthynas â pha wybodaeth am yr honiad y gellir ei rhannu a chyda phwy (h.y. beth y dylid ei ddweud wrth y rhieni, beth y dylid ei ddweud wrth yr aelod o staff)

- Rhaid i'r ysgol ofyn am gyngor gan yr adran Adnoddau Dynol (AD) ynghylch parhad cyflogaeth yr aelod o staff yn ystod unrhyw ymchwiliad, a dylid cynnal asesiad risg a'i gofnodi'n ysgrifenedig ar unwaith.

- Os yw'r honiad yn ymwneud â staff cyflenwi yna cysylltwch â'r asiantaeth yn uniongyrchol i drafod y camau nesaf a chytuno ar unrhyw gynllun rheoli risg;
    - Cyfrifoldeb yr ysgol yw cyflwyno MARF/gofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Plant
    - Cyfrifoldeb yr ysgol yw gwneud yr asiantaeth yn ymwybodol o'r honiad i'w galluogi i gynnal Cynllun Rheoli Risg fel cyflogwr yr Asiantaeth.
    - Cyfrifoldeb yr Asiantaeth yw cwblhau Adroddiad Pryder Ymarferydd a'i gyflwyno i Gyfarfodydd Strategaeth Broffesiynol cyfarfodyddstrategaethbroffesiynol@caerdydd.gov.uk (os yw'r digwyddiad wedi digwydd yng Nghaerdydd/mewn ysgol yng Nghaerdydd). Mae hyn er mwyn sicrhau bod manylion angenrheidiol y cyflogai, hanes cyflogaeth perthnasol ac adborth yn cael eu darparu. Dylai'r asiantaeth hefyd dynnu sylw at y Cynllun Rheoli Risg fel rhan o'r ffurflen adrodd.

- Os yw’r honiad yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am y Pennaeth, dylai'r aelod o staff gyflwyno adroddiad ar unwaith i Gadeirydd y Llywodraethwyr, a ddylai godi’r pryder gyda’r Timau Diogelu perthnasol.

- Ni ddylid cynnal ymchwiliad ffurfiol, gan gynnwys holi neu gyfweld â disgyblion/staff sy’n gysylltiedig â’r digwyddiad honedig, oni bai bod y Gwasanaethau Plant, SDD neu'r Heddlu yn rhoi cyfarwyddiadau i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'n briodol canfod ffeithiau (pwy, beth, ble, pryd), cael unrhyw luniau teledu cylch cyfyng a chymryd cofnodion naratif er mwyn darparu digon o wybodaeth i'r Gwasanaethau Plant neu'r heddlu.

- Dylid cofnodi unrhyw anafiadau gweledol gan ddefnyddio mapiau corff (Atodiad 5)

- Rhaid i'r aelod o staff sy'n adrodd am y digwyddiad honedig hwn gydymffurfio’n gaeth â gofynion cyfrinachedd a pheidio â thrafod y pryderon gyda'r person sy’n peri pryder nac unrhyw berson arall heblaw'r Pennaeth, oni bai mai'r person sy'n peri pryder yw'r Pennaeth.

Honiad neu bryder wedi'i fynegi

Cwyn yn cael ei gwneud yn yr ysgol neu wrth yr ysgol - adrodd i'r Pennaeth.

Cael manylion bras i gadarnhau'r ffeithiau (pwy, beth, pryd, ble). Ni ddylid rhoi manylion penodol yr honiad i'r aelod o staff dan sylw.

Ysgol yn atgyfeirio at MASH Caerdydd: gofynnwch am gyngor gan SDD: gofynnwch am gyngor gan y Tîm Diogelu Addysg yn ôl y gofyn. Gofynnwch am gyngor gan AD.

Bydd MASH/y Gwasanaethau Plant a'r heddlu yn trafod a bydd trafodaeth strategaeth yn cael ei chynnal rhwng y ddwy asiantaeth

Bydd y Gwasanaethau Plant, SDD a'r heddlu yn cynnal trafodaeth strategaeth broffesiynol ar wahân

Bydd y Gwasanaethau Plant, SDD a'r heddlu yn cynnal trafodaeth strategaeth broffesiynol.

Bydd y Pennaeth/UBD yn cael eu diweddaru ar y camau nesaf

Cynhelir cyfarfod strategaeth broffesiynol (CSB) amlasiantaethol yn ôl y gofyn. Gwahoddir y Pennaeth, yr UBD neu Gadeirydd y Llywodraethwyr iddo

Argymhellion yn cael eu gwneud

Atgyfeirio i opsiwn rheoli perfformiad arall

Dim Camau Pellach

Os yw asiantaethau (ysgolion) yn penderfynu peidio â chymryd camau pellach, dylent gofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn drwy eu dulliau cofnodi mewnol. Mae'n hanfodol cadw cofnodion rhag ofn y bydd pryder pellach neu ailadroddus. Os nad yw ysgolion yn glir ynghylch pa gamau y dylent eu cymryd, rhaid iddynt ofyn am gyngor priodol gan y Swyddog Diogelu Dynodedig (SDD).

Mae'r staff yn gyfrifol am eu gweithredoedd a'u hymddygiad eu hunain a dylent osgoi unrhyw ymddygiad a fyddai'n arwain unrhyw unigolyn rhesymol i gwestiynu eu cymhelliant a'u bwriadau. Dylai'r holl staff fod yn ymwybodol na fydd ymddygiad anghyfreithlon neu anniogel yn cael ei oddef ac y cymerir camau cyfreithiol neu ddisgyblu lle y bo'n briodol.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r angen i gynnal ffiniau priodol a phroffesiynol yn eu perthynas â disgyblion a rhieni yn unol â Chod Ymddygiad yr Awdurdod Lleol, a Chod Ymddygiad ac Arfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg.

## Honiadau / Pryderon Diogelu am Ymarferwyr ac Unigolion sydd mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

Amlinellir gweithdrefnau mewn perthynas â honiadau o gam-drin yn erbyn gweithwyr proffesiynol, aelodau o staff neu wirfoddolwyr sydd mewn cysylltiad â phlant yn y canllawiau cenedlaethol yn *Diogelu Plant: Cydweithio dan Ddeddf Plant 2004, Canllawiau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (BDRh)* ac *Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru: Ymdrin â Honiadau o Gam-drin yn Erbyn Athrawon a Staff Eraill* Llywodraeth Cymru 0900/2014.

## Chwythu'r Chwiban

Rydym yn cydnabod na ellir disgwyl i blant fynegi pryderon mewn amgylchedd lle mae staff yn methu â gwneud hynny.

Rhaid i'r holl staff fod yn ymwybodol o'r ddyletswydd sydd arnynt i roi gwybod am honiadau neu bryderon am gydweithwyr yn unol â pholisi Chwythu'r Chwiban yr Awdurdod Lleol, Fersiwn 6.5 CIS 1.C.015

## Polisïau Cysylltiedig Eraill

Polisi Ymyrraeth / Atal Corfforol

Dylai polisi'r ysgol/cyngor ar ymyrraeth gorfforol i staff ysgol gael ei nodi mewn dogfen ar wahân a'i adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu. Dim ond pan fetho popeth arall ac fel rhan o ddull holistig y dylai staff ddefnyddio ymyrraeth/atal corfforol rhwystrol o fewn lleoliad ysgol, ac mae'n rhaid bob amser ddefnyddio'r grym lleiaf posibl i atal anaf i'r disgybl, ei hun, person arall neu eiddo. Mae arfer da yn mynnu y dylai uwch arweinwyr ddarparu hyfforddiant i staff ac o ganlyniad, anogir ysgolion i gael hyfforddiant gloywi ar gyfer staff yn flynyddol ac yn amlach yn unol â'r asesiadau risg. Mae'r Polisi yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion asesu risg disgyblion

unigol lle bo angen a chynllunio'n weithredol i leihau risg drwy ddefnyddio cynlluniau trin cadarnhaol sy'n benodol i ddisgyblion.

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/safe-and-effective-intervention-use-of-reasonable-force-and-searching-for-weapons.pdf

Iechyd a Diogelwch - Diogelwch Safle Ysgol
Rhaid i'r ysgol fod yn lle diogel i ddisgyblion ddysgu a datblygu. Mae diogelwch corfforol disgyblion pan fyddant ar safle'r ysgol yn hollbwysig. Mae mynediad i safle'r ysgol yn cael ei fonitro a'i adolygu'n llym yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol ar Iechyd a Diogelwch safleoedd ysgol.

Dylai polisïau iechyd a diogelwch ysgolion gael eu nodi mewn dogfen ar wahân a'u hadolygu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu.

Gofynnir i bob contractwr dyddiol i'r safle lofnodi i mewn ac allan o'r ysgol. Byddant yn nodi'n glir y cwmni y maent yn gweithio iddo a'r rheswm dros eu hymweliad. Gan ei bod yn annhebygol y bydd datgeliad GDG ar gael i'r ysgol ei weld, bydd dull amgen o asesu risg yn cael ei ddefnyddio. Llunnir asesiad risg gan yr Ysgol sy'n rhestru'n glir y mesurau rheoli a ddefnyddir gan yr ysgol i ddiogelu disgyblion. Amgaeir Cofnod Ymweliadau Contractwyr (Dogfen 3) y dylid ei gwblhau.

Caiff polisïau iechyd a diogelwch ysgolion eu nodi mewn dogfen ar wahân a'u hadolygu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu. Dylai adlewyrchu'r ystyriaeth a roddir i amddiffyn plant o fewn amgylchedd yr ysgol a phan fyddant i ffwrdd o'r ysgol wrth gynnal tripiau ac ymweliadau ysgol.

Rhaid i ysgolion sicrhau bod yr un ystyriaeth yn berthnasol i Ddarparwyr Clybiau ar ôl ysgol neu glybiau/grwpiau sy'n defnyddio safle'r ysgol y tu allan i oriau ysgol.

**Ysgol Estynedig a'r Tu Allan i Oriau Ysgol**
Os yw'r corff llywodraethu/ysgol yn darparu cyfleusterau neu weithgareddau estynedig i'r ysgol yn uniongyrchol o dan oruchwyliaeth staff ysgol, bydd trefniadau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant yn gymwys fel y maent yn y polisi hwn.

"Pan ddarperir gwasanaethau neu weithgareddau ar wahân gan sefydliad arall, bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod cytundeb ysgrifenedig clir yn cadarnhau bod gan y darparwr dan sylw bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith o ran diogelu plant ac amddiffyn plant, ac bod trefniadau i gysylltu â'r ysgol ar y materion hyn lle y bo'n briodol"
*Cadw Dysgwyr yn Ddiogel - Llogi a Gosod, Polisi Diogelu Corfforaethol, Gwasanaethau Diogel adran (b), paragraff 2.63*

Er bod yr uchod yn nodi cyfrifoldebau mewn amgylchiadau penodol, mae ystyriaethau ychwanegol a phwysig mewn perthynas â materion penodol eraill yn gysylltiedig ag amddiffyn a diogelu plant. Rhaid i'r ysgol ystyried ei pholisïau Diogelu/Amddiffyn Plant ei hun wrth logi ei hadeiladau i sefydliadau allanol. Dylai staff gyfeirio at Bennod 4 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel lle gallai mwy o adrannau fod yn berthnasol i amgylchiadau disgybl unigol.

Cytunwyd gan y Pennaeth ............................

Cytunwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ............................

Dyddiad Cyhoeddi: ………………………….

Dyddiad Adolygu: …………………………..

## Atodiadau eraill:

Plant â Datganiadau Anghenion Arbennig / Cynllun Datblygu Unigol

Mae'r ysgol yn cydnabod y gall plant ag anawsterau ac anableddau ymddygiadol fod yn agored i gael eu cam-drin ac y gallant hefyd ei chael yn anodd datgelu eu profiadau. Dylai staff sy'n gweithio gyda phlant ag anableddau dwys a lluosog, nam ar y synhwyrau a/neu anghenion emosiynol ac ymddygiadol fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin.

Defnyddio'r Rhyngrwyd/Cyfryngau Cymdeithasol

Mae polisi ysgolion ar ddefnyddio'r rhyngrwyd wedi ei nodi mewn dogfen ar wahân ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu. Mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar ddiogelwch a lles disgyblion yn yr ysgol a dylent nodi nifer o bwyntiau i egluro'r peryglon a'r camau posibl y gall staff eu cymryd i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r rhyngrwyd.

Rhaid i unrhyw ymgais gan blentyn/person ifanc i gysylltu â staff neu i'r gwrthwyneb drwy wefannau gael ei adrodd i'r Pennaeth ar unwaith er mwyn gallu rhoi cyngor priodol i'r plentyn/person ifanc a'i rieni/gofalwyr a'r aelod o staff ynghylch ffiniau proffesiynol a diogelwch y plentyn/person ifanc. Dylid monitro cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ysgolion yn rheolaidd er mwyn sicrhau defnydd diogel a phriodol gan staff a disgyblion.

Os bydd ysgol yn dod yn ymwybodol o bryder diogelu sy'n gysylltiedig â'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol dylent ddilyn eu polisi a'u gweithdrefnau arferol.  Mae modd gweld canllawiau penodol ar rannu delweddau noethlymun drwy Hwb

https://hwb.gov.wales/zones/keeping-safe-online/sharing-nudes-and-semi-nudes-responding-to-incidents-and-safeguarding-children-and-young-people

https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/rhannu-delweddau-noeth-a-hanner-noeth-ymateb-i-ddigwyddiadau-a-diogelu-plant-a-phobl-ifanc

Defnyddio delweddau

Gellir tynnu delweddau ffotograffig a ffilmio fideos o blant at amrywiaeth o ddibenion. Bydd gofyn i staff dynnu lluniau o ddisgyblion at ddibenion y cwricwlwm, gweithgareddau ysgol ychwanegol, cyhoeddusrwydd a dathlu cyflawniad.

Dylid bod yn arbennig o ofalus ynghylch defnyddio delweddau a all gynnwys plant sy'n derbyn gofal neu blant o grwpiau eraill sy'n agored i niwed, er enghraifft ceiswyr lloches.

Rhaid i bob rhiant/gofalwr roi caniatâd penodol i unrhyw ddelwedd o'i blentyn gael ei recordio a dylid ei atgoffa na chaiff ei rhannu.

Ni ddylai staff fyth ddefnyddio eu hoffer personol eu hunain i gymryd lluniau.

Argymhellir dilyn y canllawiau canlynol wrth ddefnyddio ffotograff
- Os defnyddir y ffotograff, peidiwch ag enwi'r plentyn
- Os enwir y plentyn, peidiwch â defnyddio'r ffotograff
- Pennwch a chofnodwch p'un a fydd y ddelwedd yn cael ei chadw i'w defnyddio ymhellach
- Caiff delweddau eu storio'n ddiogel a'u defnyddio gan y rheini sydd wedi'u hawdurdodi i wneud hynny yn unig: dylent fod ar gyfer craffu er mwyn sicrhau derbynioldeb.

Mae canllawiau ar gael ar CIS "Defnydd Diogel o Ddelweddau Disgyblion – Canllawiau Arfer Gorau i Ysgolion" ynghyd â thempled ffurflen gydsynio.

Beichiogrwydd yn yr Arddegau

Os yw disgybl o dan 13 oed yn datgelu ei bod yn feichiog (neu'n credu y gallai fod yn feichiog) bydd angen MARF. Cynghorir staff i ddilyn Canllawiau Fraser wrth drafod materion personol neu rywiol gyda pherson ifanc o dan 16 oed.

Mae Canllawiau Fraser yn rhoi arweiniad ar roi cyngor a thriniaeth i bobl ifanc o dan 16 oed.

Dylai staff asesu cymhwysedd y disgyblion i roi cydsyniad a mynegi natur y berthynas (efallai y bydd Gwasanaeth Porth Teuluoedd yn gallu helpu'r person ifanc i gael cymorth drwy'r Tîm Cymorth Cynnar).

Dylid bob amser ystyried a yw'n briodol rhannu gwybodaeth â rhieni a gofalwyr fel rhan o'r asesiad a dylai fod yn seiliedig ar fudd pennaf y plentyn / person ifanc.

Lle bynnag y bo modd, byddem yn annog y person ifanc i roi gwybod i'w riant/gofalwr. Fodd bynnag, gellir argymell yn erbyn hyn petai rhoi gwybod i'r rhiant yn rhoi'r plentyn mewn perygl o niwed.

Mewn unrhyw sefyllfa o ansicrwydd, lle nad yw aelod o staff yn siŵr o'r camau i'w cymryd, ymgynghorwch â MASH neu'r Tîm Diogelu Addysg.

Byddai MARF yn OFYNNOL pe bai pryder bod y plentyn a/neu blentyn yn y groth mewn perygl o niwed neu os yw'r plentyn o dan 13 oed.

**Cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol**

**Diffiniad**

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cydnabod y diffiniadau canlynol:

- ystyr “cam-drin” yw cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.
- ystyr "cam-drin domestig" yw camdriniaeth lle mae'r dioddefwr yn neu wedi bod yn gysylltiedig â'r cam-driniwr.
- ystyr "trais ar sail rhywedd" yw— a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu ddefodau sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol; b) anffurfio organau cenhedlu benywaidd; c) gorfodi person (boed drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni grefyddol neu sifil o briodas (boed hynny'n gyfreithiol rwymol ai peidio).
- Dylid dehongli “trais yn erbyn menywod” fel petai hefyd yn cynnwys dioddefwyr gwrywaidd o drais ar sail rhywedd oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall.

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio **atal** y materion hyn, **amddiffyn** dioddefwyr a **chefnogi’r** rhai y mae’r materion hyn yn effeithio arnynt.

**Ymateb**

Mae ysgolion yn cydnabod bod plant yn ddioddefwyr cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain, a bod cysylltiad cryf rhwng cam-drin domestig a cham-drin ac esgeuluso plant, sy’n effeithio ar bresenoldeb, ymgysylltiad a chyflawniadau academaidd y plentyn.

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig sydd gennym o ran atal, amddiffyn a chefnogi'r rhai y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni hyn drwy ddull ysgol gyfan.

Trwy ein cwricwlwm addysgu a'n partneriaeth ag asiantaethau arbenigol, gallwn helpu disgyblion i adnabod a datblygu perthnasoedd iach, yn ogystal â rhannu gwybodaeth â’n rhieni a'n gofalwyr.

Mae staff ysgol yn cael eu hyfforddi i gydnabod arwyddion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ac i 'ofyn a gweithredu' lle maen nhw'n amau y gallai hyn effeithio ar blentyn, rhiant/gofalwr aelod o staff, drwy ddull sensitif ac agored.

Gall ysgolion gyfeirio'r rhai sydd wedi'u heffeithio at gefnogaeth arbenigol drwy'r llinell gymorth Byw Heb Ofn (0808 80 10 800) neu'n uniongyrchol at Wasanaethau Cymorth Arbenigol Caerdydd.

Mewn unrhyw sefyllfa lle mae gan staff achos i gredu bod disgybl mewn perygl o, yn destun, neu'n byw ar aelwyd lle mae trais neu gamdriniaeth, rhaid hysbysu'r PDD ar unwaith a chymryd camau yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Neddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Canllaw Arfer Da Dull Addysg Gyfan Llywodraeth Cymru.

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (AOCB)

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn gyfystyr â cham-drin corfforol ac emosiynol i blant – mae'n arfer anghyfreithlon a niweidiol iawn.

Mae'r ysgol yn cydnabod ei dyletswydd orfodol i roi gwybod i'r heddlu am achosion hysbys o AOCB mewn plant dan 18 oed yn unol â'i dyletswydd i adrodd: gall hyn fod yn dilyn datgeliad neu pan fo aelod o staff wedi gweld arwyddion o AOCB.

Mewn sefyllfaoedd lle mae oedolyn yn datgelu bod disgybl wedi dioddef o AOCB neu fod aelod o staff yn amau y gallai hyn fod wedi digwydd i blentyn neu fod disgybl yn wynebu risg ddifrifol neu uniongyrchol o hynny, yna rhaid ceisio cyngor ar unwaith gan y Gwasanaethau Plant a/neu'r heddlu.

Mae rhagor o arweiniad ar gael gan:
https://www.gov.uk/government/publications/mandatory-reporting-of-female-genital-mutilation-procedural-information

Dylai ysgolion ymgyfarwyddo â'r canllawiau statudol diweddar a'r gofynion 'dyletswydd i adrodd' newydd.

Ymgyrch Encompass

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru ochr yn ochr â holl ysgolion Caerdydd fel partner ar gyfer Ymgyrch Encompass. O dan Ymgyrch Encompass, bydd cydweithwyr o Adran Addysg yr Awdurdod Lleol yn cysylltu ag ysgolion i roi gwybod am achosion o Gam-drin Domestig/Trais domestig o fewn 24 awr. Bydd hyn yn galluogi staff yr ysgol i ystyried cymorth diogelwch a lles i'r plant sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau hyn.

Cewch ragor o wybodaeth drwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.operationencompass.org/assets/documents/OE-Statement-for-Safeguarding-Policy-1.pdf

Radicaleiddio/Eithafiaeth

Beth yw Prevent?

Mae Prevent yn rhan o strategaeth wrthderfysgaeth y DU (CONTEST), i ddiogelu a chefnogi'r rhai sy'n agored i radicaleiddio ac i'w hatal rhag cymryd rhan mewn terfysgaeth neu gefnogi terfysgaeth.

Dyletswyddau statudol i ysgolion

Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau (o dan Adran 26 Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r Canllaw Dyletswydd Prevent) i ddiogelu disgyblion sydd mewn perygl o radicaleiddio.

Mae'r ysgol yn gwneud hyn drwy:

- Ddarparu amgylchedd diogel i ddisgyblion siarad a thrafod materion dadleuol a allai fod yn destun pryder iddynt, gan gynnwys pynciau sensitif fel terfysgaeth ac ideoleg eithafol. Dylid cefnogi hyn ymhellach drwy ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol i helpu i wrthsefyll naratifau eithafol

- Nodi a chynnal asesiad risg ar gyfer unigolion y gellid eu tynnu i mewn i derfysgaeth ac eithafiaeth dreisgar neu ddi-drais. Mae hyn yn cynnwys cael darlun clir o'r bygythiad a darlun risg yn ardal yr ysgol a Chaerdydd

- Sicrhau bod plant yn ddiogel rhag deunydd terfysgol ac eithafol wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd yn yr ysgol, gan gynnwys sefydlu lefelau hidlo priodol, sy'n cael eu rheoli gan ALI Caerdydd

- Sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant priodol (Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth o Prevent (WRAP)) a bod ganddynt y wybodaeth a'r hyder i nodi disgyblion sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth ac eithafiaeth a herio syniadau eithafol

- Gwybod sut i gwblhau atgyfeiriad Channel a sut i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol ac anstatudol i geisio cymorth i'r plentyn/person ifanc

Diffiniadau a ddefnyddir o fewn Prevent

- Diffinnir **'Eithafiaeth'** yn strategaeth *Prevent* 2011 fel gwrthwynebiad lleisiol neu weithredol i'n gwerthoedd sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, rheol y gyfraith, rhyddid unigol, a chyd-barch a chyd-oddefgarwch at ffydd a chredoau gwahanol. Rydyn ni hefyd yn cynnwys galwadau am farwolaeth aelodau ein lluoedd arfog yn ein diffiniad o eithafiaeth, yn y wlad hon neu dramor.

- **'Eithafiaeth ddi-drais'** yw eithafiaeth, fel y'i diffinnir uchod, heb drais.
- **'Radicaleiddio'** yw'r broses sy'n dod ag unigolyn i gefnogi terfysgaeth ac ideolegau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgaeth.
- '**Terfysgaeth**' yw bygwth neu ddefnyddio trais difrifol yn erbyn person, difrod difrifol i eiddo, peryglu bywyd person, creu perygl difrifol i iechyd a diogelwch y cyhoedd, neu darfu difrifol ar y rhwydwaith electronig.

Atgyfeirio at Prevent

Cyflwynir atgyfeiriad i Prevent drwy Ffurflen Atgyfeirio Prevent Cymru Gyfan

Ffurflen Atgyfeirio Partneriaid Prevent Cymru Gyfan - Cymraeg (south-wales.police.uk)

All Wales Prevent Partners Referral Form – English (south-wales.police.uk)

Rhaid i unrhyw atgyfeiriad i Prevent hefyd gynnwys Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) a gyflwynir i MASH.

Panel Channel

Mae panel Channel yn banel amlasiantaethol sy'n cynnwys staff Prevent o Gyngor Caerdydd a phartneriaid statudol gan gynnwys Addysg, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a nifer o bartneriaid eraill.

Gall Channel fod yn briodol i unrhyw un sy'n agored i gael ei dynnu i mewn i unrhyw fath o derfysgaeth. Mae Channel yn ymwneud â sicrhau bod plant ac oedolion agored i niwed o unrhyw ffydd, ethnigrwydd neu gefndir yn cael cymorth cyn i'r rhai a fyddai am iddynt groesawu terfysgaeth fanteisio ar eu gwendidau, a chyn iddynt gymryd rhan mewn gweithgarwch terfysgol troseddol.

Mae Channel yn rhaglen sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth cynnar i bobl y nodir eu bod yn agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Mae'r rhaglen yn defnyddio dull amlasiantaethol i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed drwy:

- nodi unigolion sy'n wynebu risg;
- asesu natur a graddau'r risg hwnnw a
- datblygu'r cynllun cymorth mwyaf priodol ar gyfer yr unigolion dan sylw.

**Diogelu Cyd-destunol**

Mae ysgolion yn cydnabod y gall camdriniaeth ddigwydd y tu allan i deulu plentyn ac fe'i gelwir yn niwed 'all-deuluol'. Cydnabyddir hefyd ei fod yn gofyn am ymateb diogelu. Mae'r mathau hyn o niwed yn cynnwys;

- Cyfoed ar gyfoed
- Ymddygiad rhywiol niweidiol
- Ecsploetiaeth rywiol a throseddol
- Bwlio

Lle mae niwed all-deuluol wedi'i nodi neu amau, dylai ysgolion gysylltu â'u partneriaid diogelu.

Mae ysgolion yn llefydd diogel ac mae ganddynt rolau allweddol o ran diogelu a hyrwyddo perthnasoedd iach.

<u>Gwrth-fwlio</u>

Dylai ysgolion gyfeirio at ddogfen ganllaw Cyngor Caerdydd **'Herio Bwlio, Troseddau Casineb, Digwyddiadau Casineb ac Aflonyddu'**, a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2021 yn unol â **'Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau herio bwlio Llywodraeth Cymru' – Tach 19.** wrth ddatblygu eu polisïau ar hyn a dylai'r polisi gael ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu

Rhaid i'r ysgol fod yn ymwybodol y gallai caniatáu neu esgusodi bwlio arwain at ystyriaeth o dan weithdrefnau amddiffyn plant.

<u>Camfanteisio ar Blant</u>

Mae'r ysgol yn cydnabod ei chyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion lle mae pryderon eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin drwy unrhyw fathau o gamfanteisio (Troseddol, Llinellau Cyffuriau a Rhywiol).

Mae camfanteisio ar blant yn golygu gorfodi neu ddylanwadu ar blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau (troseddol, rhywiol a.y.b). Mae'n fath o gam-drin rhywiol sy'n gyfnewid am ryw fath o daliad a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Mae natur fregus y person ifanc a'r broses o feithrin perthynas amhriodol a ddefnyddir gan y rhai sy'n cyflawni'r troseddau yn eu gwneud yn ddi-rym i adnabod natur gamfanteisiol y berthynas ac i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Mae Camfanteisio'n cynnwys:

- cam-drin drwy gyfnewid gweithgarwch rhywiol am ryw fath o daliad neu anrheg
- cam-drin drwy gynhyrchu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall sy'n cynnwys plant boed yn ffotograffau, ffilmiau neu dechnolegau eraill
- cam-drin drwy hudo p'un ai drwy gyswllt uniongyrchol neu ddefnyddio technolegau fel ffonau symudol a'r rhyngrwyd
- cam-drin drwy fasnachu at ddibenion rhywiol neu droseddol
- cam-drin drwy gymryd perchnogaeth o eiddo unigolion (dull cwcw).

**Nid yw plant yn gwirfoddoli i gael eu hecsbloetio'n rhywiol ac ni allant gydsynio i'w camdriniaeth eu hunain; cânt eu gorfodi a/neu eu denu.**

**“Gallai Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant ddigwydd pan fydd rhywun yn rhoi pethau fel cariad, anwyldeb, bwyd, arian neu roddion i chi, ond yna'n gwneud i chi wneud pethau rhywiol i'w talu nhw'n ôl. Efallai y byddant yn gwneud i chi deimlo'n arbennig, neu’n gwneud i chi feddwl eich bod mewn perthynas, ond nid yw hynny'n wir. Weithiau gallant fod yn dreisgar neu ddweud pethau cas.' (Grŵp Llywio Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant 2019)**

Os yw'r ysgol yn poeni bod disgybl mewn perygl o CRhB, dylid cwblhau offeryn sgrinio camfanteisio ar blant Diogelu’r Glasoed rhag Camfanteisio (SAFE). Os yw'r offeryn sgrinio yn nodi risg o niwed sylweddol, ac NAD yw'r person ifanc yn agored i'r Gwasanaethau Plant, RHAID i chi wneud atgyfeiriad. Gwnewch hyn drwy gwblhau Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) a'i chyflwyno ynghyd â'r ffurflen hon i’r Gwasanaethau Plant drwy'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) yn unol â'r ddyletswydd i adrodd o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019.

Os yw plentyn yn agored i’r Gwasanaethau Plant, anfonwch yr offeryn sgrinio wedi'i gwblhau i'r cyfeiriad e-bost canlynol SAFE@caerdydd.gov.uk

Gweld **atodiad 6,** tudalen 55 ar gyfer y ffurflen, offeryn sgrinio a dogfen ganllaw

Tîm Diogelu Dy Hun Caerdydd
Cyswllt: Stephanie McKay, Prif Weithiwr Cymdeithasol
07973730371
Stephanie.McKay@caerdydd.gov.uk / Stephanie.McKay@cardiff.gov.uk

**Camdriniaeth cyfoed-ar-gyfoed ac ymddygiad rhywiol niweidiol**

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn cynghori y dylai’r holl staff sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg ddeall a chydnabod risgiau camdriniaeth cyfoed-ar-gyfoed ac ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r NSPCC a Barnardo's i lunio canllawiau ar ymddygiad rhywiol niweidiol, camfanteisio'n rhywiol a chamdriniaeth cyfoed–ar-gyfoed ar gyfer ysgolion, a fydd ar gael ar Hwb. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhyddhau cynllun gweithredu i atal ac ymateb i aflonyddu rhywiol mewn addysg:  Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg: cynllun gweithredu [HTML] | LLYW. CYMRU

Dylai'r PDD fod â dealltwriaeth dda o ymddygiad rhywiol niweidiol a dylai hyn fod yn rhan o'i hyfforddiant diogelu. Mae gwybodaeth am ddiogelu plant lle gallai fod pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol ar gael mewn Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan, a gyhoeddir gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth am gamdriniaeth cyfoedion.

Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol yn darparu offer er mwyn arwain PDD drwy adnabod ac ymateb i bryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol Adnoddau ar gyfer lleoliadau addysg | Canolfan CSA